## PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
### GRŴP LLYWIO PWYLLGOR GWEITHREDU DIWYLLIANT A CHELFYDDYDAU STRATEGOL

Cofnodion o gyfarfod y Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol a gynhaliwyd Dydd Iau, 13 Mehefin 2019 am 1.00 pm ym Theatr y Parc a'r Dâr, Station Road, Treorci, CF42 6NL.

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Grŵp Llywio Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol Aelodau oedd yn bresennol**:-:-

Y Cynghorydd R Lewis (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A Crimmings | Y Cynghorydd J Brencher |
| Y Cynghorydd S. Rees-Owen | Y Cynghorydd J Rosser |

**Aelodau cyfetholedig a oedd yn bresennol**

Mr C Coppock
Ms M Dunning

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.
Ms C O'Neill, Rheolwr Celfyddydau a Diwylliant
Mr A Williams, Rheolwr Datblygu a Gweithrediadau'r Theatrau
Ms W Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau yn y Gymuned
Ms D Hanney, Swyddog Datblygu Asedau Cymunedol
Ms A Gould, Rheolwr Datblygu Rhaglenni'r Theatrau a Chynulleidfaoedd

**1 Datgan Buddiant**

Yn unol â chod ymddygiad y Cyngor, gwnaeth Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees-Owen ddatganiad o fuddiant personol yn Eitem 5 - Trosglwyddo Ased Cymunedol - Canolfan Gelf y Miwni, Pontypridd. 'Rydw i'n gweithio i sefydliad sydd â Chytundeb Lefel Gwasanaeth gydag un o'r sefydliadau.'

**2 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2019 yn rhai cywir.

**3 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad**

**PENDERFYNWYD** bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod Eitem 5, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

**4 Trosglwyddo Ased Cymunedol - Canolfan Gelf y Miwni, Pontypridd**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a

Gwasanaethau Cymuned grynodeb ac asesiad i'r Grŵp o'r holl gynigion busnes sydd wedi'u derbyn mewn perthynas â'r gwaith arfaethedig o drosglwyddo ased cymunedol Canolfan Gelf y Miwni.

Yn dilyn trafodaeth hir, ystyriodd Grŵp Llywio'r Pwyllgor Gweithredu Diwylliant a Chelfyddydau Strategol grynodeb ac asesiad y ddau gynllun busnes a dderbyniwyd. **PENDERFYNWYD** y byddai'r Cyfarwyddwr Materion Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned yn rhannu'r sylwadau â'r Cabinet er mwyn eu hystyried.

(**Nodwch:** Yn ystod y drafodaeth datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. Brencher y buddiant personol canlynol 'Rwy'n Ymddiriedolwraig yr YMCA'.

**5 Buddsoddi Cyfalaf**

Rhoddodd y Rheolwr Gweithrediadau a Datblygiad y Theatrau ddiweddariad llafar i'r Grŵp ynglŷn â grant llwyddiannus gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Gwnaeth y Cyngor gais am y grant yma ym mis Ionawr 2019. Cafodd £95,000 ei ddarparu gan y grant, yn ogystal â £119,000 gan yr Awdurdod Lleol, er mwyn trawsnewid y bar yn Theatr y Parc a'r Dâr yn ardal berfformio. Byddai'r gwaith adnewyddu'n cynnwys cael gwared ar y to ffals i greu lle grid ar y to go iawn, addurniadau, adnewyddu ystafelloedd gwisgo a chyfle i gael gwared ar y wal rhwng y bar a'r cyntedd er mwyn creu ardal sy'n fwy gweladwy ac agored.

Roedd y Grŵp Llywio'n falch o ddysgu am y llwyddiant o ran cyllid grant a'r cynlluniau cyffrous i ddatbygu'r theatr, a siaradodd yr Aelodau am y cynllun i wella'r toiledau yn Theatr y Colisëwm, Aberdâr. Nodwyd mai'r gobaith yw y byddai'r cynlluniau i greu gofod mwy clyd yn Theatr y Parc a'r Dâr wedyn yn cyrraedd rhannau eraill o'r gymuned, ac y byddai hynny, yn ei dro, yn helpu i ddatblygu rhagor o artistiaid a sicrhau bod y theatr yn gwneud rhagor o arian. Mae cais am gyngor wedi'i anfon at raglen Gwydnwch Cyngor Celfyddydau Cymru ynglŷn â'r arlwy o ran bariau ac arlwyo.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad, gan nodi ei fod e'n edrych ymlaen at weld y gwaith adnewyddu yn y dyfodol.

**6 Rhaglen Cynllunio Gwerth at Ddiben Cyhoeddus Cyngor Celfyddydau Cymru**

Roedd y Rheolwr Diwylliant a Chelfyddydau Strategol yn falch o roi gwybod i'r Grŵp Llywio fod Rhondda Cynon Taf wedi llwyddo yn ei fynegiant o ddiddordeb i gymryd rhan mewn rhaglen dros saith mis. Mae hon wedi'i chomisiynu gan Gyngor Celfyddydau Cymru a chaiff ei darparu gan Lisa Baxter o Experience Business, gyda'r bwriad o ddylunio ac ailystyried profiadau cynulleidfaoedd mewn perthynas â'r celfyddydau. Siaradodd y Rheolwr Celfyddydau am flaenoriaeth allweddol yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru, sef 'ehanghu ymgysylltiad'. Dywedodd fod y rhaglen wedi'i sefydlu er mwyn helpu lleoliadau sy'n cael eu hariannu gan refeniw i ymgysylltu â chymunedau.

Dysgodd y Grŵp Llywio fod dau leoliad arall wedi bod yn llwyddiannus, a bod Rhondda Cynon Taf yn canolbwyntio ar Theatr y Parc a'r Dâr am ei bod hi'n ganolfan greadigol, gan ychwanegu bocs du. Cyfeiriodd y Rheolwr at y rhaglen saith mis llwyddiannus a'i ddeilliannau, gan gynnwys damcaniaeth newid, camau gweithredu, prototeipiau a syniadau i'w rhannu. Roedd y ffordd newydd yma o feddwl yn gyfle i swyddogion holi'u hunain "Beth yw ein hachos?" a "Pam ydyn

ni'n gwneud hyn?"

Gan gyfeirio at y sefyllfa gyfredol, dywedodd y Rheolwr fod gwaith ymchwil yn mynd rhagddo i weithdai yn y dyfodol, a hynny gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd am y gymuned leol a rhanddeiliaid. Unwaith i hyn gael ei sefydlu, caiff cynrychiolwyr o'r gymuned eu gwahodd i weithdai er mwyn ceisio gwneud y newid.

Rhoddodd y Grŵp Llywio ganmoliaeth i'r rhaglen, gan nodi bod y ffordd newydd o feddwl yn hanfodol mewn cyfnod sy'n newid yn barhaus. Pan gafodd hi ei holi am gyflwyno'r ffordd newydd o feddwl, dywedodd y Rheolwr Celfyddydau ei bod hi'n gobeithio rhannu'r hyn a gafodd ei ddysgu â Theatr y Colisëwm, yn ogystal â'i gynnwys yn natblygiad y canolfannau cymunedol.

Cafwyd trafodaeth am y canolfannau cymunedol a'r dull cyfannol sydd ar waith ym mhob ardal, yn unol â'i anghenion. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau'r Gymuned, at y celfyddydau a'i fewnbwn allweddol o ran datblygu'r canolfannau. Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y 'Lullaby Project', sef prosiect sy'n ceisio ymgysylltu â babanod a phobl sydd â dementia drwy hwiangerddi.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am rannu'r newyddion cyffrous a gofynnodd a fyddai modd i'r Grŵp Llywio gael y newyddion diweddaraf am hyn yn ôl yr angen.

**7 Materion Brys**

Rhoddodd y Rheolwr Rhaglen Theatrau a Datblygu Cynulleidfaoedd y rhestr ganlynol i'r Grŵp Llywio o uchafbwyntiau ac achlysuron i ddod ar gyfer Theatrau Rhondda Cynon Taf:

- Teyrnged i Frank Vickery - 19 Mehefin 2019
- Pobl ifainc o academi Dimensions yw'r unig grŵp yng Nghymru i gael ei ddewis i berfformio yn rhan o gynllun 'Connections' y National Theatre yn Llundain - 29 Mehefin 2019
- Prosiect Caffis Eidalaidd - Mae hanesion yn cael eu casglu o'r gymuned leol ynglŷn â mewnfudwyr o'r Eidal i Gymru. Caiff canlyniad y gwaith ymchwil a datblygu cyntaf ei rannu ar 24 Gorffennaf 2019.
- Bydd cynhyrchiad Ned and the Whale gyda Flossy and Boo yn cael ei berfformio yng ngŵyl Caeredin ym mis Awst 2019.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am y diweddariad, gan nodi'r amrywiaeth eang o berfformiadau sydd ar gael yn Theatrau Rhondda Cynon Taf, sy'n galluogi amrywiaeth eang o bobl i gymryd rhan. Yn ogystal â hynny, achubodd y Cadeirydd at y cyfle i gyfeirio at y dalent a ddenwyd a'r llwyddiant a gyflawnwyd. Manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i bawb a fu'n rhan ar ran y Grŵp Llywio.

Cyn dod â'r cyfarfod i ben, aeth y Cadeirydd ati i atgoffa'r aelodau o Ŵyl; Gelfyddydau Cwm Rhondda, Treorci, a fyddai'n cael ei gynnal ar 28 a 29 Mehefin 2019. Nod yr achlysur yw dathlu ac arddangos yr amrywiaeth eang o greadigrwydd celfyddydol sydd gyda ni ym mhob rhan o'r fwrdeistref.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 pm** **Y Cynghorydd R. Lewis**

**Cadeirydd.**